


Mae NWTS yn fenter cydweithredol rhwng Ysbyty Brenhinol y Plant, Manceinion ac Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Rydym wedi ein hariannu gan Tîm Comisiynu Arbenigol y Gogledd Orllewin

Gwefan NWTS: www.nwts.nhs.uk

Mae ambiwlansys NWTS a’u gyrrwyr wedi eu cyflenwi gan Medical Services.



Alfie “@therappugalfie” at NWTS

Gwybodaeth i Rieni



Croeso i NWTS

Rydym yn deall fod y cyfnod yma yn anodd iawn i chi fel teulu. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y ffordd rydym yn gweithio ac am y gofal y byddwn yn gynnig i'ch plentyn. Mae aelodau'r tîm yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau ac i egluro'r driniaeth rydym yn roi i'ch plentyn.

Pwy ydym ni?

Mae NWTS yn arbenigo mewn cludo babanod a phlant sydd yn ddifrifol wael. Rydym yn cynnig gofal dwys symudol i blant yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ac yn eu cludo o ysbytai lleol i unedau gofal dwys yn unai Ysbyty Brenhinol y Plant, Manceinion neu Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl. Weithiau bydd angen cludo plant sydd angen triniaeth arbenigol i ysbytai eraill yn y DU.

Aelodau'r tîm

Mae'r tîm yn cynnwys meddyg, nyrs a gyrrwr ambiwlans. Mae pob aelod o'r tîm wedi derbyn hyfforddiant arbenigol yn y cludiant o blant difrifol wael. Mae'r meddyg a'r nyrs hefyd yn aelodau profiadol o'r uned gofal dwys yn unai Ysbyty Brenhinol y Plant, Manceinion neu Ysbyty Alder Hey.

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio?

Bydd eich ysbyty lleol wedi cysylltu â NWTS am gyngor efo'r driniaeth mae eich plentyn wedi ei gael hyd yn hyn. Bydd NWTS yn cynghori'r tîm lleol ar strategaethau triniaeth i sefydlogi cyflwr eich plentyn cyn i ni deithio i'ch ysbyty lleol.

Ar ôl cyrraedd eich ysbyty lleol bydd y tîm lleol yn trosglwyddo gofal y plentyn i NWTS. Bydd tîm NWTS yn asesu eich plentyn yn drylwyr. Bydd y tîm yn gweithio efo'r meddygon a nyrsys lleol i sefydlogi cyflwr eich plentyn ac i ddatblygu cynllun triniaeth. Yna, bydd NWTS yn cludo eich plentyn i uned gofal dwys i barhau efo'r triniaeth mae o neu hi wedi dderbyn hyd yn hyn.

Profiadau teuluoedd

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw adborth gennych am eich profiad yn ystod cludiant eich plentyn gan dîm NWTS.

Cewch ffurflen adborth gan y tîm i'w llenwi pan mae'n gyfleus i chi. Gadewch y ffurflen yn yr Uned Gofal Dwys os gwelwch yn dda, i'r Uned ei dychwelyd i NWTS.

Neu, cewch yrru eich adborth atom i:

Tîm NWTS

NWTS Team
Newton House
Birchwood Park
Warrington
Cheshire
WA3 6FW

Ebost: kathryn.claydon-smith@nwts.nhs.uk

Mae'r ambiwlansys rydym yn defnyddio yn NWTS wedi eu dylunio a'u cyfarparu i sicrhau cludiant diogel i blant sydd angen gofal dwys.

Fel rheol rydym yn cludo o leiaf un rhiant yn ogystal â'r plentyn. Weithiau ni fydd hyn yn bosib, ac os felly rydym yn gofyn i'ch ysbyty lleol i drefnu trafnidiaeth i chi os oes angen.

Os ydych yn teithio gyda'ch plentyn:

- Arhoswch ar eich eistedd a gwisgwch eich gwregys diogelwch ar hyd y daith os gwelwch yn dda
- Peidiwch ag agor eich gwregys diogelwch yn ystod y daith oni bai fod aelod o'r tîm yn gofyn i chi ei agor.
- Byddwm yn eich cyflwyno i'n gyrrwr ambiwlans cyn y daith. Bydd o neu hi yn eich cysuro a'ch cyngori os oes argyfwng neu os oes rhaid stopio'r ambiwlans i drin eich plentyn.
- Pan mae'n bosib, bydd y tîm yn gadael i chi wybod yn syth am unrhyw newidiadau yng nghyflwr eich plentyn yn ystod y daith, ond ein prif flaenoriaeth yw gofalu am eich plentyn, ac weithiau bydd rhaid newid ei driniaeth/ei thriniaeth ar frys.
- Bydd y tîm yn cysylltu â'r Uned Gofal Dwys yn ystod y daith i adael iddynt wybod am driniaeth eich plentyn ac am unrhyw newidiadau yn ei gyflwr/ei chyflwr.

Os ydych yn teithio yn eich car eich hun, peidiwch â dilyn yr ambiwlans os gwelwch yn dda – weithiau bydd rhaid i ni ddefnyddio goleuadau glas i deithio drwy draffig ac nid yw'n ddiogel i chi ein dilyn.

Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Alder Hey yn y Parc

Cyfeiriad: Lôn Eaton, West Derby, L12 2AP

Cyfeiriad Sat Nav: Lôn East Prescott, L14 5AB

Rhif ffôn yr Uned Gofal Dwys: 0151 252 5241/5242

Switsfwrdd: 0151 228 4811

Mae'r Uned Gofal Dwys ar lefel 1.

Mae Alder Hey yn ardal West Derby, Lerpwl, tua 5 milltir o ganol y ddinas ac yn agos i gyffordd Queen's Drive, cylchffordd yr A5058 a lôn East Prescott.



- Ar ddiwedd traffordd yr M62 cadwch i'r dde
- Trowch i'r dde ar Queen's Drive, cadwch ar y lôn yma am tua 1 milltir
- Ar ôl y goleuadau traffig gyferbyn â thafarn y Navigator trowch i'r dde ar lôn East Prescott – mae Alder Hey tua 0.3 milltir i lawr y lôn yma ar y chwith.
- Ar ôl y goleuadau traffig trowch i'r chwith a dilynwch y lôn i'r maes parcio aml-lawr

Mae parcio i deuluoedd ac ymwelwyr ar y llawr isaf ac ar lefel 1.


Uned Gofal Dwys Ysbyty Brenhinol y Plant, Manceinion.

Cyfeiriad: Lôn Oxford, M13 9WL

Rhif ffôn yr Uned Gofal Dwys: 0161 701 8000

Switsfwrdd: 0161 276 1234

Mae'r Uned Gofal Dwys as y llawr cyntaf.



Mae Ysbytai Canolog Manceinion yn gyfagos i Brifysgol Manceinion.

- Yn teithio i'r dwyrain ar yr M62, gadewch y draffordd ar gyffordd 12 i ymuno â'r M602 (i gyfeiriad Manceinion/Salford)
- Cadwch i'r dde a pharhewch ar Mancunian Way
- Ar ôl 0.7 milltir cymerwch y lôn slip i ymuno â'r A34 i – dilynwch yr arwydd i Brifysgol Manceinion. (Mae'r troad ar y lôn slip yn dynn iawn).
- Parhewch i'r chwith ar hyd stryd Upper Brook
- Dilynwch yr A34 am tua 1.1 milltir, yna trowch i'r dde heibio'r goleuadau traffig i lôn Hathersedge (yn teithio heibio Tesco ar y chwith a'r prif ysbyty ar y dde)
- Wrth y goleuadau traffig nesaf trowch i'r dde i Ysbyty Brenhinol y Plant, Manceinion a'r maes parcio.